**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 17 Medi 2020 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd R Yeo
Y Cynghorydd D Williams

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

**292 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol G Hughes a S Powderhill.

**293 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

(1) Cyhoeddodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Caple fuddiant personol mewn perthynas â Chais Rhif: 18/1291/10 - Newid defnydd y safle yn storfa gynhwysyddion dur (derbyniwyd manylion diwygiedig, gan gynnwys cynllun safle ehangach, manylion o ran goleuo ac oriau gwaith, ar 26/11/2019). Tir ger Heol Glynfach, Glynfach, y Porth.
"A minnau'n Aelod Lleol, rydw i wedi bod ymdrin â chwynion gan drigolion ynglŷn â defnydd amhriodol o'r tir dan sylw, ond dydy hyn ddim yn gysylltiedig â'r cais yma."

(2) Cyhoeddodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J Bonetto fuddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â Chais Rhif: 20/0631 – Cynllun ynni adnewyddadwy sy'n defnyddio system adfer gwres i ddarparu gwres i Ysgol Gynradd Ffynnon Taf a'r Pafiliwn. Rhwydwaith Gwres Ffynnon Dwym Ffynnon Taf, Caerdydd.
“Rwy'n gadeirydd Parc Ffynnon Taf a'r Ffynnon Dwym ac roeddwn yn rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb wreiddiol a gyflawnwyd mewn perthynas â'r prosiect hwn."

**294 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo

hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**295 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**296 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 6 Awst 2020 yn rhai cywir.

**297 CAIS: 20/0201**

**Trosi ac adeiladu estyniad ar gyfer Gwesty Llantwit House i ddarparu 8 fflat hunangynhwysol, cyfleusterau parcio a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Arolwg Ystlumod ar 16/07/2020), Gwesty Llantwit House, Ffordd Llantrisant, Llanilltud Faerdref, Pontypridd.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Jon Hurley (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais i'r Aelodau.

Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio gynnwys llythyrau 'hwyr' a dderbyniwyd gan yr unigolion canlynol:

- Aelod Lleol / Aelod nad yw'n Bwyllgor J. James sy'n siarad o blaid y cais yn gyffredinol er ei fod yn codi rhai pryderon mewn perthynas â materion parcio.
- Mr D Benjamin sy'n gwrthwynebu'r cais.

Aeth y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu ymlaen i gyflwyno'r cais uchod i'r Pwyllgor. **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gwblhau cytundeb Adran 106, er mwyn sicrhau bod anheddau'n cael eu sefydlu a'u cadw'n unedau fforddiadwy, at ddibenion parhaus bodloni'r anghenion lleol sydd wedi'u nodi o ran tai.

**298 CAIS: 20/0433**

**Ailgyflwyno cais i ddefnyddio eiddo ar gyfer cartref gofal un person, gyda pherson ifanc yn byw â chymorth yno, a'r holl staff a gweithwyr cymorth ar sifftiau deffro, 9 Heol Dôl-yr-Afon, Gelli, Pentre.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr David Lake (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r

Aelodau.

Darllenodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys sylwadau ysgrifenedig gan Mr a Mrs Jones sy'n gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu amod sy'n gofyn bod yr eiddo ond yn cael ei ddefnyddio er mwyn darparu gofal i un person yn unig ar unrhyw adeg.

**299 CAIS: 20/0631**

**Cynllun ynni adnewyddadwy sy'n defnyddio system adfer gwres i ddarparu gwres i Ysgol Gynradd Ffynnon Taf a'r Pafiliwn, Rhwydwaith Gwres Ffynnon Taf, Caerdydd.**

(Nodwch: Ar ôl datgan buddiant mewn perthynas â'r cais uchod (Cofnod Rhif 293), gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J Bonetto y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma).

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(Nodwch: Yn dilyn y penderfyniad, dychwelodd y Cynghorydd J. Bonetto i'r cyfarfod.)

**300 CAIS: 20/0680**

**6 pod glampio gyda gwaith isadeiledd, gwelliannau ac atgyweiriadau i'r ysgubor bresennol (derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar 17/08/2020) (Derbyniwyd y Cynllun Diwygiedig ar 25/08/2020), Fferm Blaen Nant-y-Groes, Ffordd Blaen Nant-y-Groes, Cwm-bach, Aberdâr.**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn cynnal Ymweliad Safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, er mwyn ystyried effaith y fynedfa i'r safle ar y briffordd.

**301 CAIS: 18/0880/10**

**Newid defnydd llawr cyntaf ac ail lawr yr eiddo, o hen neuadd snwcer (Dosbarth D2) i 22 o fflatiau hunan-gynhaliol preswyl i fyfyrwyr (Sui Generis) a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd disgrifiad diwygiedig ar 03/10/2016) (Caniatâd Adeilad Rhestredig). (Derbyniwyd Asesiad Diwygiedig o'r Effaith ar Dreftadaeth ar 12/07/2019). 1 Stryd Fothergill, Trefforest, Pontypridd, CF37 1SG.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais a adroddwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 16 Gorffennaf 2020. Cafodd y cais ei ohirio er mwyn cynnal ymweliad safle a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2020. Cafodd y cais ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor ar 20 Awst 2020, gydag argymhelliad i'w gymeradwyo, ond gwrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu am y rhesymau canlynol:

- Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at golli nodweddion hanesyddol a phensaernïol pwysig sy'n gysylltiedig â'r Adeilad Rhestredig. Mae hyn yn groes i Bolisi AW7 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf a NCT 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

**302 CAIS: 18/0886**

**Newid defnydd llawr cyntaf ac ail lawr yr eiddo, o hen neuadd snwcer (Dosbarth D2) i 22 o fflatiau hunan-gynhaliol preswyl i fyfyrwyr (Sui Generis) a gwaith cysylltiedig. 1 Stryd Fothergill, Trefforest, Pontypridd, CF37 1SG.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais a adroddwyd yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 16 Gorffennaf 2020. Cafodd ei ohirio ar gyfer ymweliad safle a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2020. Cafodd y cais ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor ar 20 Awst 2019, gydag argymhelliad i'w gymeradwyo, ond gwrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu am y rhesymau canlynol:

1. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn rhoi pwysau sylweddol ar y safle, ac yn arwain at orddefnydd ac orddatblygu'r safle. Byddai ceisio hwyluso cynifer o fflatiau ag sy'n bosibl o fewn yr adeilad, heb unrhyw ofod amwynder, yn arwain at greu llety cyfyng o ansawdd isel ar gyfer meddianwyr y dyfodol. O ganlyniad i hyn, mae'r cynnig yn groes i Bolisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf a'r Canllawiau Cynllunio Atodol: Datblygu Fflatiau wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor:

2. Byddai'r datblygiad arfaethedig felly'n arwain at effaith niweidiol ar ddiogelwch holl ddefnyddwyr y briffordd a llif traffig, yn groes i Bolisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf, am y rhesymau canlynol:

   i. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at ragor o bobl yn defnyddio'r safle a bydd rhagor o draffig ar hyd y strydoedd preswyl. Mae'r strydoedd yma eisoes yn brysur ac mae'r ddarpariaeth parcio ar y stryd eisoes yn golygu dim ond un car sy'n gallu teithio ar hyd y stryd ar unrhyw adeg a felly'n arwain at effaith niweidiol ar ddiogelwch holl ddefnyddwyr y ffordd a llif y traffig.
   ii. Does dim darpariaeth parcio oddi ar y stryd wedi'i chynnwys yn y cais a does dim lle ar y safle i ddarparu hynny, felly byddai meddianwyr yn cael eu gorfodi i barcio ar y priffyrdd ar hyd y strydoedd preswyl cyfagos. Mae'r rhain eisoes yn brysur a byddai hyn yn arwain at barcio'n ddiwahân ar y stryd ac mae hyn yn niweidiol i ddiogelwch holl ddefnyddwyr y priffyrdd a llif y traffig.
   iii. Byddai'r ardal storio biniau arfaethedig wedi'i lleoli wrth ymyl y briffordd ger y gyffordd â Stryd y Parc a Heol Cyrch-y-Gwas, lle nad oes llwybr troed. O ganlyniad i hynny, byddai'n rhaid i feddianwyr y dyfodol

fynd ar y briffordd brysur i ddefnyddio'r biniau, sy'n niweidiol i'w diogelwch a diogelwch defnyddwyr y ffordd.
iv. Byddai'n anodd gorfodi mesurau rheoli mewn perthynas â'r ail fynedfa i'r adeilad, sydd ger y gyffordd â Stryd y Parc a Heol Cyrch-y-Gwas, i sicrhau bod y man yma ond yn cael ei ddefnyddio 'at ddibenion storio biniau'. Byddai hyn yn arwain at breswylwyr yn defnyddio'r fynedfa yma fel y brif fynedfa. Does dim llwybr troed ar gael felly bydd hyn yn niweidiol i ddiogelwch cerddwyr a diogelwch y briffordd.

**303 CAIS: 18/1291/10**

**Newid defnydd y safle yn storfa gynhwysyddion dur (derbyniwyd manylion diwygiedig, gan gynnwys cynllun safle ehangach, manylion o ran goleuo ac oriau gwaith, ar 26/11/2019). Tir ger Heol Glynfach, Glynfach, y Porth.**

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r cais a gafodd ei adrodd yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 20 Awst, 2020, lle roedd yr Aelodau o blaid cymeradwyo'r cais, yn groes i argymhelliad swyddog y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio am y rhesymau canlynol:

1. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at ddefnydd masnachol. Dydy hyn ddim yn cyd-fynd â natur preswyl yr ardal gyfagos. Byddai caniatáu i'r safle weithredu 24 awr y dydd yn achosi sŵn ac aflonyddwch i eiddo preswyl cyfagos, yn enwedig yn ystod yr oriau anghymdeithasol. Bydd hyn yn niweidiol i'w amwynder preswyl, ac yn mynd yn groes i Bolisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf. O ganlyniad i hyn, mae'r cais yn mynd yn erbyn Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

2. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at gynnydd yn y defnydd o fynedfa ac allanfa bresennol y safle ac yn niweidiol i ddiogelwch holl ddefnyddwyr y briffordd a llif traffig yn yr ardal, ac yn mynd yn groes i Bolisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**304 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 24/08/2020 – 04/09/2020.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**